

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Sk:n Clinic, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 29 Ionawr
2018

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	17
4.	Beth nesaf?	19
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	21
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	22
	Atodiad B – Cynllun gwella	23

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Sk:n Clinic, d/o Clwb Iechyd David Lloyd, Ipswich Road, Caerdydd, CF23 9AQ, ar 29 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darparwyd gwybodaeth fanwl i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd yr eiddo'n lân ac yn daclus ac wedi'i gynnal a'i gadw i safon uchel.
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth o weithgareddau gwella ansawdd i helpu i nodi meysydd i'w gwella

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen proses fwy cadarn ar gyfer cael caniatâd cleifion a'i gofnodi
- Rhai agweddau ar gadw cofnodion hyfforddiant staff

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Sk:n Clinic wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol gan ei fod yn darparu triniaethau drwy ddefnyddio technoleg golau pwls dwys a thriniaethau laser Dosbarth 3B/4 yn d/o David Lloyd Leisure, Ipswich Road, Caerdydd, CF23 9AQ.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf ar 16 Mawrth 2015.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig a phum gweithredwr laser a golau pwls dwys.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau ar gyfer plant (dros dair oed) ac oedolion gan ddefnyddio'r canlynol:

Laser MeDioStar Asclepion

- Gwaredu gwallt â laser (16 oed ac yn hŷn)

Laser QuadroStar Asclepion

- Gwaredu dafadennau a ferwcau (tair oed ac yn hŷn)
- Mannau geni coch (tair oed ac yn hŷn)
- Triniaeth fasgwlaidd (18 oed ac yn hŷn)
- Xanthelasma (18 oed ac yn hŷn)
- Rhinophyma (18 oed ac yn hŷn)
- Tecáu creithiau (18 oed ac yn hŷn)
- Sglerosis clorog (18 oed ac yn hŷn)
- Gwythiennau edau ar y wyneb (18 oed ac yn hŷn)

Aesthera Isolaz IPL

- Diagnosis a thriniaeth acne (16 oed ac yn hŷn)

Laser ConBio Medlite IV

- Mannau geni a brychau brown (tair oed ac yn hŷn)

- Gwaredu tatwau (18 oed ac yn hŷn)
- Brychau oedran/haul (18 oed ac yn hŷn)

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod y staff yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Darparwyd gwybodaeth fanwl i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod triniaethau.

Roedd angen cofnodi caniatâd cleifion ar gyfer pob triniaeth.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 18 holiadur. Roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, a nododd cleifion fod y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd ar eu cyfer yn rhagorol. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Rydw i bob amser wedi bod yn fwy na bodlon gyda'm profiadau yn y clinig. Hefyd gyda'r ganolfan alwadau / tîm cadw lle wrth drefnu apwyntiadau."

"Mae'r clinig yn gyfeillgar ac yn lân bob amser. Roedd y staff yn amlwg yn wybodus. Y gwasanaeth gorau rwyf wedi'i gael yn y maes hwn."

"Profiad pleserus bob amser ac mae'r staff yn gynnes ond yn broffesiynol."

"Mae pawb rwyf wedi'u gweld yma wedi bod mor gyfeillgar a gofalgar, gan ei wneud yn brofiad hyfryd."

"Mae bob tro'n brofiad pleserus pan wy'n dod am fy nhriniaeth. Mae'r holl ferched yn y clinig yn hyfryd ac yn tawelu fy meddwl bob tro. Byddaf (ac rwyf wedi) argymhell Sk:n i'm teulu a'm ffrindiau."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y gofynnwyd i gleifion lenwi ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, ac roedd hon yn cael ei gwirio ar gyfer newidiadau ymhob apwyntiad dilynol er mwyn sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel.

Urddas a pharch

Heb eithriad, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn cytuno bod y staff bob tro yn gwrtais, yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth. Cawsom wybod bod y drysau'n cael eu cloi yn ystod triniaeth a bod y cleifion yn cael eu gadael i ddadwisgo ar eu pen eu hunain os oedd angen. Gwnaed hyn er mwyn cynnal urddas cleifion – cyn y driniaeth, yn ystod y driniaeth ac ar ôl y driniaeth.

Roedd ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal yn yr ystafelloedd triniaeth, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol yn gallu cael ei thrafod heb i neb ei chlywed.

Gwybodaeth a chydysniad cleifion

Gwnaethom ganfod bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion iddynt wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth. Roedd hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb gyda gweithredwr laser neu olau pwls dwys cyn i driniaeth ddechrau. Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys y risgiau, y buddion a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Gwnaeth y cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd gytuno eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn i driniaeth ddechrau ac yn derbyn cyngor ôl-ofal ar ôl y driniaeth. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth ysgrifenedig fanwl yn cael ei rhoi i gleifion.

Roedd gwybodaeth fanwl ynghylch triniaethau hefyd ar gael ar wefan y gwasanaeth i helpu cleifion i wneud penderfyniad hysbys ynghylch eu gofal, gan gynnwys adran 'cwestiynau cyffredin'.

Er inni weld y ceid caniatâd ysgrifenedig i driniaeth gan gleifion yn yr apwyntiad cychwynnol, nid oeddem yn gallu gweld bod hyn yn cael ei nodi mewn unrhyw apwyntiad dilynol. Dywedwyd wrthym y ceir caniatâd dilys ar lafar cyn cynnal unrhyw driniaeth. Trafodwyd hyn â'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol a chytunwyd bod yn rhaid cael caniatâd cleifion a'i gofnodi ym mhob apwyntiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y ceir caniatâd y claf a'i fod yn nodi hynny'n glir cyn pob triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw i gleifion ar gael a oedd yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth. Gwelsom fod angen diweddarau cyfeiriad e-bost AGIC. Roed yr holl wybodaeth arall a oedd yn ofynnol gan y rheoliadau wedi'i chynnwys.

Roedd datganiad o ddiben¹ ar gael a gwnaethom ganfod ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol fel a nodir yn y rheoliadau.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd yr holl gleifion yn derbyn apwyntiad ymgynghori cyn dechrau ar unrhyw driniaeth, a oedd yn cynnwys asesiad math o groen. Gwelsom fod canlyniad yr asesiad hwn yn cael ei gofnodi a'i ddefnyddio i gynorthwyo gyda thriniaethau. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth a dogfennau ôl-ofal, a oedd yn cynnwys risgiau a manteision triniaeth. Gwnaethom drafod yr arweiniad a rannwyd ar lafar â chleifion ar y cam ymgynghorol, a oedd hefyd yn cynnwys trafodaeth o'r risgiau a'r buddion.

Canfuom fod nodiadau cleifion unigol ar gael a oedd yn fanwl. Gwelsom hefyd fod y gwasanaeth yn cynnal cofrestr triniaeth gyffredinol sy'n benodol i bob peiriant golau pwls dwys/laser ac, unwaith eto, roedd y cofnodion yn fanwl ac yn drylwyr fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y clinig ar lawr daear David Lloyd Leisure ac yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd neu sy'n defnyddio cadair olwyn. Canfuwyd gennym fod mannau parcio i bobl anabl y tu allan i'r safle.

¹ Dogfen sy'n ofynnol dan y gyfraith yw datganiad o ddiben sy'n cynnwys set safonol o wybodaeth ynghylch gwasanaeth darparwr.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Gwelsom fod gan y gwasanaeth broses gynhwysfawr ar gyfer casglu adborth cleifion ynghylch y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn. Roedd y clinig yn cysylltu â'r cleifion ar ôl pob triniaeth i ymholi am eu profiad. Roedd yr wybodaeth hon yn cael ei hadolygu'n fisol yng nghyfarfod rhanbarthol y gwasanaeth i ystyried a dadansoddi'r wybodaeth a gafwyd. Roedd crynodeb o rai o sylwadau'r cleifion hefyd ar gael ar wefan y gwasanaeth i gleifion ei weld ac roedd y sylwadau hyn wedi'u cynnwys yn y canllaw i gleifion hefyd.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod gan y practis drefniadau addas ar waith i ddarparu triniaeth i gleifion mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau da a oedd yn eu galluogi i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, ac roedd yn ymrwymedig i ddarparu safon uchel o ofal.

Gwnaethom argymhell bod angen i'r gwasanaeth gael ardystiad sy'n ymwneud â hyfforddiant diogelu staff a'i gadw.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles staff sy'n gweithio yn y practis, a'r bobl sy'n ymweld.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad. Gwelsom dystiolaeth fod profion dyfeisiau cludadwy yn gyfredol, i helpu i sicrhau bod offer trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio.

Darparwyd ardystiad i ddangos bod y gwiriad gwifrau trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad yn gyfredol.

Gwnaethom archwilio rhai o'r trefniadau diogelwch tân. Dangosodd labeli gwasanaethu'r diffoddwyr tân eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol, ac roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân i'w gweld yn glir. Roedd asesiad risg tân ar waith, a gafodd ei adolygu ddiwethaf ym mis Mehefin 2017. Gwelsom fod y staff wedi derbyn hyfforddiant diogelwch tân a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth fynediad i becyn cymorth cyntaf a gwelsom fod popeth oddi mewn iddo o fewn ei ddyddiad dod i ben ac yn addas at y diben. Gwelsom dystysgrifau i gadarnhau bod y staff hefyd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Gwelsom fod yr adeilad yn weledol lân ac yn daclus. Ni chafodd unrhyw bryderon eu lleisio gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno'n gryf fod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

Rhoddwyd disgrifiad manwl gan y gwasanaeth o'r trefniadau rheoli heintiau a gwelsom fod polisi rheoli heintiau ar waith. Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y staff hefyd wedi derbyn hyfforddiant atal a rheoli heintiau. Roedd archwiliadau rheolaidd o'r trefniadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal gan y gwasanaeth i helpu i sicrhau bod trefniadau ac amserlenni glanhau priodol yn cael eu cynnal.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu gwastraff clinigol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin oedolion a phlant am rai gweithdrefnau diffiniedig.

Canfuwyd gennym fod polisïau diogelu manwl ar waith i gefnogi staff petai angen. Er i ni weld dystysgrifau diogelu ar gyfer rhai gweithredwyr laser/golau pwls dwys, nid oeddem yn gallu eu gweld ar gyfer pob aelod o staff. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu, ond nid oedd yr holl dystysgrifau ar gael i'w gweld. Mae'r gwasanaeth yn cael ei atgoffa i sicrhau bod prawf hyfforddiant yn cael ei gadw ganddo.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y ceir tystiolaeth o hyfforddiant diogelu ar gyfer yr holl weithredwyr laser a golau pwls dwys a'i bod yn cael ei chadw.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod yr holl weithredwyr laser wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys. Roedd yr hyfforddiant hwn gan mwyaf yn cael ei ddarparu'n fewnol, a gwnaethom argymhell y dylai'r dystysgrifau sy'n dangos bod yr hyfforddiant wedi cael ei gwblhau fod yn fwy manwl a nodi'n glir yr hyn a ddysgwyd yn ystod yr

hyfforddiant. Cytunodd y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn. Gwelsom hefyd dystysgrifau i ddangos bod yr holl weithredwyr laser a golau pwls dwys wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth² yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Gwelsom fod cytundeb ar waith gyda Chynghorydd Amddiffyn rhag Laserau a bod rheolau lleol yn manylu ar weithrediad diogel y peiriannau, a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Gwelsom dystysgrifau'n dangos bod y peiriannau wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Cawsom wybod am y gwiriadau rheolaidd a oedd yn cael eu cynnal ar y peiriant a bod gan y gwasanaeth system ar waith i gofnodi unrhyw ddiffygion neu godau camgymeriad i hyrwyddo defnydd diogel o'r peiriannau.

Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau a oedd wedi'u cymeradwyo gan weithwyr meddygol proffesiynol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod gan yr ystafelloedd triniaeth gloeon ar y tu mewn i'r drws, a oedd yn cael eu defnyddio wrth ymgymryd â thriniaeth. Gwelsom arwyddion rhybuddio ar y tu allan i'r drysau hefyd i nodi bod y peiriannau yn cael eu defnyddio. Roedd yr allweddi'n cael eu tynnu o'r peiriannau ar ôl ymgymryd â thriniaeth a'u storio'n ddiogel i atal unrhyw ddefnydd heb awdurdod ac i hyrwyddo diogelwch cleifion a staff.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a gweithredwyr laser/golau pwls dwys. Wrth eu harchwilio, ymddengys bod y cyfarpar mewn cyflwr gweledol da. Cawsom wybod bod y cyfarpar diogelu llygaid yn cael ei wirio'n weledol bob dydd er mwyn helpu i sicrhau ei fod mewn cyflwr digon diogel i'w ddefnyddio.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau sy'n ymwneud â'r asesiad risg amgylcheddol. Gwelsom fod y Cynghorydd Amddiffyn rhag Laserau wedi ymweld â'r safle yn ddiweddar ac wedi cwblhau asesiad risg wedi'i ddiweddarau.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

² Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys mewn modd diogel.

Canfuwyd gennym fod y gwasanaeth yn ymgymryd â nifer o weithgareddau gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau boddhad cleifion, archwiliadau rheoli heintiau, ac archwiliad iechyd a diogelwch. Disgrifiodd y gwasanaeth hefyd broses archwilio allanol lle y byddai aelod o staff o'r cwmni ehangach yn cynnal archwiliad dirybudd i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni safonau perthnasol. Byddai cynllun gweithredu'n cael ei lunio o ganlyniad i nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom arsylwi bod darpariaeth dda ar gyfer diogelu nodiadau a data cleifion, a oedd yn cael eu cadw'n ddiogel i atal mynediad heb awdurdod.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Canfuom fod strwythur rheoli clir a chefnogol ar waith.

Roedd gan y gwasanaeth system gadarn i sicrhau yr eid i'r afael ag unrhyw bryderon mewn modd priodol a bod dysgu'n cael ei rannu i wella profiad y claf.

Roedd gan staff fynediad i amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Sk:n Clinic, Caerdydd, yn rhan o grŵp ehangach o glinigau sk:n ledled Cymru a Lloegr. Ymgymeirir â rheolaeth feunyddiol y gwasanaeth gan y rheolwr cofrestredig gyda chefnogaeth yr unigolyn cyfrifol. Mae gan y gwasanaeth bum gweithredwr laser/golau pwls dwys, y mae dau ohonynt yn feddygon sy'n cynnig gwasanaethau anaml ond rheolaidd yn y clinig.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith a gwelwyd tystiolaeth iddynt i gyd gael eu hadolygu'n ddiweddar. Byddai bwletinau'n cael eu darparu gan y brif swyddfa i ddarparu unrhyw newidiadau i bolisïau a/neu weithdrefnau, ac roedd gofyn i'r staff lofnodi i ddangos eu bod wedi darllen a deall unrhyw newidiadau.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod cofnodion yn cael eu llunio a'u darparu i'r aelodau hynny o staff nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol ar waith.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Canfuwyd gennym fod gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno gadarn ar waith. Gwelsom dystiolaeth fod gan y gwasanaeth broses addas ar waith ar gyfer mynd i'r afael â chwynion a'u cofnodi'n briodol a'i fod yn dangos ei fod yn dysgu o unrhyw bryderon neu gwynion a godir.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr holl weithredwyr laser a golau pwls dwys wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd, gan gynnwys Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant gweithredwyr ar gyfer y peiriannau.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn derbyn arfarniadau rheolaidd am eu gwaith, a gwelsom gofnodion hyfforddiant staff manwl a oedd yn ymwneud â rôl unigolyn yn y gwasanaeth.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod gan y gwasanaeth raglen ymsefydlu fanwl ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff, i helpu i'w cefnogi mewn rôl newydd. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant a ddarperir yn y clinig a hyfforddiant prif swyddfa hefyd yn ymwneud ag agweddau ar iechyd a diogelwch, trafod â llaw, llywodraethu gwybodaeth, a hyfforddiant tân sylfaenol. Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn cael eu hasesu a'u bod ond yn cael caniatâd i ddefnyddio'r peiriannau a chynnal triniaethau pan ystyrir eu bod yn gymwys i wneud hynny.

Roedd recriwtio'n cael ei reoli'n ganolog gan dîm corfforaethol, a gwelsom fod gwiriadau cyn-gyflogaeth priodol ar waith. Gwelsom hefyd fod y rheolwr cofrestredig a gweithredwyr laser/golau pwls dwys yn meddu ar wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Sk:n Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 29 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y ceir caniatâd y claf a'i fod yn nodi hynny'n glir cyn pob triniaeth.	9. Gwybodaeth a chydsyniad cleifion Rheoliad 9 (4) (b)	Adolygwyd y ddogfen ganiatâd Gwaredu Gwallt â Laser ar 28 Chwefror 2018 i gynnwys tystiolaeth glir fod yr holl gleientiaid yn cael y cyfle i drafod eu cynllun triniaeth yn ystod pob triniaeth. Mae'r geiriad canlynol wedi'i ychwanegu at y gwiriad meddygol parhaus a gynhelir eisoes: Rwyf wedi darllen a deall y ffurflen ganiatâd ac wedi cael y cyfle i drafod risgiau a manteision y driniaeth bosib ag ymarferydd sk:n. Deallaf y gall fy	Lisa Mason	23 Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		nghynllun triniaeth gael ei newid i gyflawni'r canlyniadau gorau ac rwyf yn fodlon y gallaf drafod fy nghynllun ar unrhyw adeg. Bydd gofyn i'r cleient lofnodi a dyddio'r ffurflen ganiatâd cyn pob triniaeth. Anfonwyd bwletin meddygol ar 28 Chwefror 2018 i hysbysu'r holl ymarferwyr a staff o'r diwygiad i'r ffurflen ganiatâd. Caiff ffurflenni caniatâd laser ychwanegol ar gyfer gwythiennau edau ar y wyneb, gwaredu tatŵs ac Isolaz eu diweddarw erbyn 23 Mawrth 2018.		
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y ceir tystiolaeth o hyfforddiant diogelu ar gyfer yr holl weithredwyr laser a golau pwls dwys a'i bod yn cael ei chadw.	11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed Rheoliad 16 (3) (a) Rheoliad 20	Cafwyd y dystiolaeth a oedd yn weddill bellach a'i hanfon at Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru drwy'r porth. Yn y dyfodol, i sicrhau bod yr holl dystiolaeth yn cael ei choladu, mae'r adran adnoddau dynol wedi ychwanegu ardystiad diogelu plant at ein	Lisa Mason	12 Chwefror 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	(2) (a)	gweithdrefn weithredu safonol bresennol er mwyn coladu dogfennaeth i feddygon. Yng nghlinigau sk:n, rydym yn deall pwysigrwydd cael tystiolaeth hyfforddiant. Bydd rheolwr y clinig yn gyfrifol am gadw cofnodion personél cyfredol a bydd archwiliad mewnol bob chwe mis yn monitro cydymffurfio o ran coladu tystysgrifau diogelu. Mae'r holl weithwyr yn derbyn hyfforddiant diogelu plant i sicrhau diogelwch ein holl gleientiaid.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw welliannau.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):Lisa Mason
Swydd: Pennaeth Safonau Meddygol
Dyddiad:28 Chwefror 2018